

Yr Afon Arbennig

Yn nyfnderoedd yr **afon Wysg**, yn ddyfnach na'r **cychod**, y **cerrig** a'r **gwymon**, roedd dau ffrind gorau yn byw, sef **Ava-Mai** a **Daf**.



Ond nid dau ffrind arferol oedd **Ava-Mai** a **Daf**, ond **môr-forwyn** a **môr-lanc** a oedd yn byw ar waelod yr **afon arbennig**.

Bob blwyddyn, ar yr un diwrnod â **Gŵyl Newydd**, cynhelir gŵyl anhygoel arall ar waelod yr **afon Wysg** o'r enw **Gŵyl Swigod a Sain**.




Bob blwyddyn, byddai'r holl **fôr-forynion**, **môr-lanciau**, **dolffiniaid**, **sêr y môr**, **pysgod**, **morfilod** ac **octopysau** o bell ac agos yn dod at ei gilydd i ddathlu **Gŵyl Swigod a Sain** ar waelod yr **afon Wysg** am ddiwrnod cyfan.

O fore gwyn tan nos!

Ond eleni, roedd yna un **cranc** blin o'r enw **Callum** a oedd yn benderfynol o dorri ar draws yr hwyl...

Un o brif ddigwyddiadau **Gŵyl Swigod a Sain** - ar wahân i'r **bandiau roc a rôl** a fyddai'n canu ar y llwyfan gyda'r hwyr - oedd **Ras Gwibio'r Wysg**.



Bob blwyddyn byddai enillydd **Ras Gwibio'r Wysg** yn derbyn **cist drysor** fel gwobr.



Byddai'r holl **ddolffiniaid**, **sêr y môr**, **pysgod**, **morfilod** ac **octopysau** yn cymryd rhan yn y ras, ac am y tro cyntaf erioed roedd **Ava-Mai** a **Daf** yn cael cymryd rhan yn y ras eleni hefyd.

Roedd y ddau ffrind gorau yn gyffrous dros ben!

Ond yn ddiarwybod i bawb, roedd **Callum y cranc** yn benderfynol o ennill y ras gan wneud **popeth** yn ei allu i sicrhau hynny.

Wrth i bawb gymryd eu llefydd ar y llinell gychwyn roedd **Callum y cranc** yn chwerthin yn braf iddo'i hun.




Ychydig o funudau'n ôl, roedd **Callum y cranc** wedi cuddio **gwymon** ar hyd y llinell gychwyn. Felly, pan floeddiodd rheolwr y ras '**EWCH!**' cwmpodd pawb yn y **gwymon** ar wahân i **Callum y cranc**...

...Ac i ffwrdd â **Callum y cranc** fel **mellten** trwy'r awyr.

Ond nid dyna'r unig beth drwg roedd **Callum y cranc** wedi'i wneud yn ystod **Ras Gwibio'r Wysg** - **o na!**

Trodd **Callum y cranc** rhan o lwybr y ras yn **dywod suddo** trwy gymysgu'r **llysnafedd gwyrdd** o'i drwyn gyda'r **tywod**.




Yn sydyn, aeth **Osian** yr **octopws** a'i wyth goes yn sownd yn y **tywod suddo** - **o na!**



Yna, ar ran arall o lwybr y ras creodd **Callum y cranc** gerrynt cryf yn yr afon trwy **dorri gwynt** enfawr.

Yn sydyn, aeth bob un o'r **pysgod bach porffor** ac **oren** yn sownd yn y **cerrynt cryf** – **o na!**



Roedd **Callum y cranc** ar flaen y ras ond roedd ychydig o **ddolffiniaid** a **sêr y môr** yn agos iddo – heb anghofio **Ava-Mai** a **Daf** hefyd wrth gwrs!

Felly, fel ymgais olaf i sicrhau ei fod yn ennill y ras, cafodd **Callum y cranc** ei ffrindiau blin i adeiladu **wal** o gerrig yng nghanol llwybr y ras.

Y **wal** hon oedd y **wal** dalaf a lletaf a welwyd erioed.

Stopiodd pawb yn stond wrth ymyl y **wal**. Doedd dim modd fynd o'i chwmpas i'r chwith nac i'r dde, nac ychwaith modd i fynd dros y **wal**!



“O na! Wnawn ni byth guro Callum y cranc nawr!” gweiddodd **Sarah** y **seren fôr** yn ddigalon.

Ond, trwy weithio fel tîm achubodd **Ava-Mai** a **Daf** y dydd trwy dynnu un garreg ar y tro.

Tynnwyd un garreg...

Carreg arall...

A charreg arall eto...



Roedd **Ava-Mai** a **Daf** yn gallu gweld **Callum y cranc** yn agosáu at y llinell derfyn!

Brysiodd **Ava-Mai** a **Daf** hyd yn oed yn gyflymach i dynnu'r cerrig.

Tynnwyd un garreg fawr...

Carreg fawr arall...

A charreg fawr arall eto...



O fewn dim roedd y ddau ffrind gorau wedi dymchwel y **wal**!



Gyda'r **wal** wedi diflannu, gwibiodd **Donna'r dolffin** fel **mellten** trwy'r awyr at y llinell derfyn gan drechu **Callum y cranc**.

HWRÊ – roedd anifail haeddiannol wedi ennill **Ras Gwibio'r Wysg 2020!**

Derbyniodd **Donna'r dolffin** y **gist drysor** yn wên o glust i glust.



Ymddiheurodd **Callum y cranc** am ei ymddygiad a gwahoddodd **Donna'r dolffin** iddo ymuno yn y dathlu.

Er nad oedd **Ava-Mai** a **Daf** wedi ennill y ras, cafodd y ddau ohonynt **fedal aur** yr un fel rhodd o ddiolch am eu hymddygiad arbennig.



Y noson honno, gwahoddwyd y ddau ffrind gorau ymlaen i brif lwyfan **Gŵyl Swigod a Sain** i ddawnsio gyda’u hoff fand - **Sŵnami** - ac adnabuwyd **Ava-Mai** a **Daf** fel arwyr **Gŵyl Swigod a Sain** am weddill eu hoes.

Awdur: Rhiannon Lloyd Williams

Darlunydd: Sioned Medi Evans